# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)12-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 29 Ebrill 2008

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)11-08 (cofnodion drafft) Dydd Mawrth 22 Ebrill 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)12-08(p1)**

3.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr a'r opsiynau ar gyfer ystyried y Mesur yn ystod Cyfnod 2, yn ddarostyngedig i'r egwyddorion cyffredinol y cytunwyd arnynt yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth. Nododd Aelodau'r Pwyllgor y gallai'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Mesur arfaethedig i bwyllgor newydd ar gyfer trafodion Cyfnod 2 neu drwy gynnig yn y Cyfarfod Llawn y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor y Cynulliad Cyfan. Gofynnodd y pwyllgor am bapur yn rhoi rhagor o fanylion ar oblygiadau'r ddau opsiwn.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher er mwyn dwyn cynigion gerbron i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

3.3 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 4.30pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.4 Nododd y pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 29 a 30 Ebrill 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)12-08(p2)**

3.5 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)12-08(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau o fusnes heblaw busnes y Cynulliad a ganlyn:

Dadl yn ceisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid ar 14 Mai 2008.

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon yn y Cartref ar 14 Mai 2008.

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon Trafnidiaeth ar 21 Mai 2008.

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Gynllunio'r Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol ar 21 Mai 2008.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i ymweld â Merthyr Tudful a Wrecsam - BC(3)12-08(p4)**

4.1 Ystyriodd y pwyllgor geisiadau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i gyfarfod yng Ngholeg Merthyr ddydd Iau 5 Mehefin ac yng Ngholeg NEWI yn Wrecsam ddydd Iau 3 Gorffennaf fel rhan o'i ymchwiliad i gam-drin yn y cartref. Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes ei geisiadau.

**Ceisiadau gan y Pwyllgor Darlledu i ymweld â Phrifysgol Morgannwg yng Nghaerdydd a Thŷ'r Cyffredin - BC(3)12-08(p5)**

4.2 Ystyriodd y pwyllgor geisiadau gan y Pwyllgor Darlledu i ymweld â Phrifysgol Morgannwg yng Nghaerdydd a Thŷ'r Cyffredin fel rhan o'i ymchwiliad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac effaith newid i'r digidol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y ceisiadau mewn egwyddor. Darperir y dyddiadau ar gyfer yr ymweliadau maes o law.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**